

Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

CWLS (2) 17-06 (p5)

Dyddiad y cyfarfod: Dydd Mercher, 15 Rhagfyr 2006

Amser y cyfarfod: 9:00am - 12:20pm

Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 3, Y Senedd

Nodiadau – Sean Ó Cuirreáin, An Coimisinéir Teanga.

13 Rhagfyr 2006.

A Chairde,

Tá an-áthas orm a bheith libh anseo inniu. Mae'n bleser mawr i mi fod yma yng Nghaerdydd heddiw a hoffwn ddiolch i aelodau'r pwyllgor am eu diddordeb yng ngwaith ein Swyddfa.

Cefais fy mhenodi fel Coimisinéir Teanga cyntaf Iwerddon ar 23 Chwefror 2004 - bron 3 blynedd yn ôl - gan y Llywydd, yn unol â chyngor y Llywodraeth ar ôl y penderfyniad yn y Dáil a'r Seanad, y ddau Senedd-dy, i gymeradwyo'r penodiad.

Ond cyn i mi ddelio â'r materion sydd o ddiddordeb penodol i chi yma heddiw – rôl a swyddogaethau'r Swyddfa – credaf ei bod yn hanfodol i mi ddechrau drwy roi braslun byr iawn o faterion sy'n ymwneud â'r Wyddeleg yn Iwerddon er mwyn rhoi gwaith ein Swyddfa yn ei gyd-destun priodol.

Yr iaith Wyddeleg yw iaith genedlaethol Iwerddon. Mae'n cael ei siarad yno ers bron 2,000 o flynyddoedd. Hon yw'r iaith ysgrifenedig hynaf yn Ewrop sy'n dal i gael ei defnyddio fel iaith gymunedol fyw.

Y Cyd-Destun

Yn Erthygl 8 ein Cyfansoddiad, caiff ei chydabod fel ein hiaith swyddogol gyntaf ac ymhen llai na 3 wythnos – ar 1 Ionawr y flwyddyn nesaf – caiff ei chydabod fel un o ieithoedd gwaith swyddogol yr Undeb Ewropeaidd.

Ers sefydlu Gwladwriaeth Iwerddon mae pwysigrwydd diogelu a hybu'r iaith wedi cael ei gydnabod yn swyddogol bob amser fel un o'r gwerthoedd craidd.

Mae'r wladwriaeth wedi hybu'r iaith dros y blynyddoedd mewn nifer o ffyrdd – yn bennaf drwy'r system addysg lle mae'n rhaid i'r rhan helaeth o fyfyrwyr astudio'r iaith hyd at lefel Tystysgrif

Gadael Ysgol. Mae hyn yn golygu eu bod yn cael hyd at 1,500 awr o hyfforddiant yn yr iaith dros gyfnod o 13 mlynedd o'r dosbarth babanod nes y byddant yn gadael yr ysgol uwchradd, pan fyddant tua 18 oed, fel arfer.

Caiff yr iaith ei hybu gan y byd darlledu gyda gwasanaeth radio cenedlaethol yn y Wyddeleg, a sefydlwyd ym 1972, yn darlledu 24 awr y dydd yn ogystal â gwasanaeth teledu yn y Wyddeleg, TG4, a sefydlwyd ddeng mlynedd yn ôl.

Mae gennym Adran yn y Llywodraeth a Gweinidog sydd â chyfrifoldeb penodol dros faterion ieithyddol yn ogystal â bwrdd iaith trawsffiniol a sefydlwyd o dan gytundeb dydd Gwener y Groglith sy'n gyfrifol am hybu'r iaith drwy Iwerddon gyfan, yn y gogledd a'r de.

Daw Materion Ieithyddol yn yr ardaloedd lle y caiff y Wyddeleg ei siarad, ardaloedd y Gaeltacht, dan gyfrifoldeb awdurdod y Gaeltacht a gaiff ei ethol yn ddemocrataidd, a chaiff yr iaith ei hybu drwy gyhoeddiadau, gan gynnwys papur newydd dyddiol ac wythnosol yn y Wyddeleg, drwy'r celfyddydau, ac mewn nifer o agweddau eraill ar fywyd sy'n rhy niferus i'w henwi yn y cyflwyniad byr hwn.

Mae agwedd gadarnhaol y gwasanaeth teledu tuag at y Wyddeleg a thwf ysgolion Gwyddelig sy'n darparu addysg ar gyfer oddeutu 30,000 o blant y tu allan i ardaloedd traddodiadol y Gaeltacht yn aml yn cael eu hystyried fel arwyddion o gynnydd yn y diddordeb sydd yn yr iaith.

Dylwn ddweud hefyd y bydd y Llywodraeth, gyda hyn, yn cyhoeddi'r hyn sy'n cael ei ddisgrifio fel datganiad gweledigaeth ynghylch dyfodol yr iaith, y datganiad cyntaf o'i fath ers sawl degawd.

Ystadegau

Fodd bynnag, er bod yr holl fframwaith swyddogol ar gyfer hybu'r iaith yn galonogol, yn ganmoladwy ac yn werthfawr iawn, rhaid nodi bod bwlch eang rhwng y sefyllfa swyddogol a'r hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd.

Yn ystadegol, mae'r ffigyrau diweddaraf sydd ar gael o Gyfrifiad 2002 - nid yw manylion Cyfrifiad 2006 wedi'u cyhoeddi eto - yn dangos bod tua 1.57 miliwn, allan o 4 miliwn o bobl, yn dweud bod Gwyddeleg ganddynt. Mae'n amlwg nad ydynt i gyd yn siarad Gwyddeleg yn rhugl ond drwy ddweud bod Gwyddeleg ganddynt, maent yn bendant yn dangos eu bod yn gefnogol i'r iaith hyd yn oes os nad ydynt yn gwbl rugl ynddi.

Wrth i rywun dyrchu drwy'r ffigyrau, ymddengys bod tua 100,000 yn defnyddio'r iaith ar ryw ffurf yn ddyddiol. At hyn, mae arolygon amrywiol a gynhaliwyd dros y blynyddoedd yn dangos bod cefnogaeth gref i'r iaith fel symbol o hunaniaeth.

Dyma gyd-destun ystadegol a chyfansoddiadol ein gwaith.

At hyn, ychwanegwyd Deddf Ieithoedd Swyddogol yn 2003 a sefydlodd Swydd An Coimisinéir Teanga, ymhlith pethau eraill.

Amcanion

Prif nod y ddeddfwriaeth newydd yw cynyddu ansawdd a nifer y gwasanaethau cwsmeriaid y mae sefydliadau'r wladwriaeth yn eu cynnig yn y Wyddeleg mewn ffordd gynlluniedig a chydlynol dros gyfnod. Yn fy marn i, mae hyn yn cynnwys gwneud lle i'r iaith mewn bywyd cyhoeddus yn y wlad a'i gwneud yn iaith hyfyw a gwerthfawr y tu allan i giât yr ysgol.

Mae'r Ddeddf yn cadarnhau hawl absoliwt i ddefnyddio'r Wyddeleg yn holl lysoedd Iwerddon yn ogystal ag yn y Dáil a'r Seanad, y ddau Senedd-dy, ym mhob pwyllgor, is-bwyllgor a chydbwyllgor yn y ddau dy.

Dylwn hefyd nodi bod dros 650 o sefydliadau a chyrrff y wladwriaeth yn Iwerddon yn dod o dan delerau'r Ddeddf Ieithoedd Swyddogol, gan amrywio o Adrannau'r Llywodraeth, i awdurdodau lleol, byrddau ac asiantaethau'r Llywodraeth, sefydliadau addysg uwch a chyrrff eraill sy'n rhy niferus i'w henwi.

Mae'r ddeddfwriaeth yn gosod rhwymedigaethau penodol ar yr holl gyrff hynny drwy ddarpariaethau uniongyrchol y Ddeddf, gan gynnwys delio â gohebiaeth yn yr iaith Wyddeleg a chyhoeddi dogfennau allweddol yn ddwyieithog. Mae darpariaethau eraill ar y gweill ar ffurf rheoliadau statudol gan y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros faterion ieithyddol. Prif ffocws y ddeddfwriaeth, fodd bynnag, yw ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau'r wladwriaeth baratoi cynlluniau iaith tebyg o ran natur i'r rheini sydd ar gael yma yng Nghymru. Yn wir, mae'r elfen hon yn y gyfraith wedi'i modelu i raddau helaeth iawn ar ddeddfwriaeth ar gyfer y Gymraeg.

Dylwn, yn y fan hyn, gofnodi'n dyled i'r awdurdodau yma, i'n cydweithwyr ar Fwrdd yr Iaith Gymraeg ac yn wir i bobl Cymru am y gwaith arloesol a wnaed yma yng nghyswllt yr iaith, sy'n esiampl i ni i gyd. Efallai nad ydych bob amser yn ymwybodol o faint rydych chi'n ei roi – a faint rydym ninnau'n ei gymryd .

Ac os trodd ein deddfwyr ni tuag at Gymru wrth ystyried y cysyniad o gynlluniau iaith, mae'n glir iddynt droi tua'r Dwyrain ac at Ganada wrth ystyried y cysyniad o swyddfa comisiynydd er mwyn sicrhau bod cyrrff yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ac i ddarparu gwasanaeth ombwdsmon yng nghyswllt cwynion gan y cyhoedd.

Swyddogaethau

Un o swyddogaethau craidd fy swyddfa yw monitro a sicrhau bod cyrrff yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth, yn ogystal ag ymchwilio i gwynion am gyrff sy'n torri gofynion y Ddeddf Ieithoedd Swyddogol neu unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n ymwneud â statws y Wyddeleg a'r defnydd a wneir ohoni.

Mae fy swyddfa hefyd yn gyfrifol am roi cyngor i'r cyhoedd ynghylch eu hawliau ieithyddol o dan y Ddeddf ac i sefydliadau'r wladwriaeth ynghylch eu rhwymedigaethau o dan y Ddeddf.

Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i mi weithredu'n annibynnol wrth gyflawni fy nyletswyddau.

Caiff yr annibyniaeth hon ei gwarantu gan y system benodi ffurfiol ar gyfer swydd Coimisinéir Teanga a'r ddarpariaeth gyfreithiol na chaiff deilydd y swydd ei ddiswyddo gan y Llywydd oni bai fod rhesymau'n seiliedig ar gamymddwyn, anallu neu fethdaliad dros wneud hynny, ac ni all hynny ddigwydd heb benderfyniad yn y ddau Senedd-dy (y Dáil a'r Seanad) o blaid ei ddiswyddo. Golyga hyn fod deilydd y swydd yn annibynnol ar y Llywodraeth ac unrhyw weinidog yn y Llywodraeth wrth gyflawni swyddogaethau penodol y swydd.

Mae gan y Coimisinéir Teanga rwymedigaeth statudol i baratoi adroddiad blynyddol am waith y Swyddfa a'i gyflwyno i'r Gweindiog sydd â chyfrifoldeb am faterion ieithyddol sy'n gorfod gosod yr adroddiad gerbron y ddau dy, y Dáil a'r Seanad, cyn pen dau fis ar ôl ei dderbyn.

Mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn caniatáu i'r Coimisinéir Teanga gyhoeddi sylwadau penodol yn seiliedig ar brofiad deilydd y swydd.

Yn ei hanfod felly, mae gan y Swyddfa gyfrifoldebau fel gwasanaeth Ombwdsmon, fel asiantaeth cydymffurfio ac mae'n rhoi cyngor ynghylch hawliau a rhwymedigaethau ieithyddol.

Awdurdod

Mae'r awdurdod statudol a roddir i'r Coimisinéir Teanga yr un fath yn y bôn â hwnnw a roddir i'r rheini sy'n gwasanaethu fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus, Ombwdsmon Plant, Ombwdsmon Pensiynau, Ombwdsmon y Lluoedd Amddiffyn etc. yn Iwerddon neu mewn awdurdodaethau eraill.

Gall yr awdurdod hwn olygu bod angen darparu gwybodaeth, dogfennau neu dystiolaeth lafar i gynorthwyo deilydd y swydd i gyflawni swyddogaethau'r swydd, ac mae hefyd yn caniatáu i'r llysoedd osod dirwyon o hyd at €2,000 a/neu chwe mis o garchar i unrhyw un a fydd yn euog o lesteirio neu rwystro'r Coimisinéir Teanga rhag cyflawni'i swyddogaethau. Ond gadewch i mi nodi'n gyflym fod ein gwaith yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar weithio mewn partneriaeth ac ar ddulliau cydweithredol o weithio yn hytrach nag ar fygwth achos llys.

Dylwn, wrth gwrs, nodi mai dyddiau cynnar yw hi o hyd o ran sefydlu'r swyddfa newydd. Er i'r ddeddfwriaeth ei hun gael ei chyflwyno yn 2003, ni ddaeth i rym yn llawn tan 14 Gorffennaf eleni, ryw bum mis yn ôl. A dim ond cyfran fechan o'r cynllun iaith sydd wedi'i chadarnhau gan y Gweindiog sydd â'r cyfrifoldeb priodol ar hyn o bryd. Nid oes gennym unrhyw ran yn y gwaith o baratoi neu gytuno ar gynlluniau - ein swyddogaeth yw sicrhau bod pawb yn cydymffurfio unwaith y bydd y cynlluniau statudol hyn wedi'u cwblhau.

Dylwn hefyd ddweud nad oes gennyf unrhyw ran yn y gwaith o lunio deddfwriaeth na rheoliadau na chynlluniau o dan y Ddeddf. Mae'r swyddogaeth hon wedi'i chadw, yn gwbl briodol, o fewn y maes gwleidyddol, yng ngofal y Gweinidog.

Hyd yn hyn, rydym wedi cyhoeddi dau adroddiad blynyddol sydd i'w gweld ar ein gwefan

ddwyieithog www.coimisineir.ie y gellir ei defnyddio fel siop-un-stop yng nghyswllt pob agwedd ar y ddeddfwriaeth a gwaith a swyddogaeth y swydd.

Rydym wedi delio â channoedd o gwynion gan y cyhoedd. Mae'n bosibl fod llawer ohonynt y tu allan i derfynau caeth y ddeddfwriaeth ei hun ond gellid dadlau, yn ystod y cyfnod cychwynnol hwn, eu bod yn dod o fewn "ysbryd y ddeddfwriaeth."

Yn y ddau adroddiad blynyddol cyntaf, rydym wedi ystyried materion pwysig a dynnwyd i'n sylw ac sy'n dylanwadu'n uniongyrchol ar ein gwaith, gan gynnwys materion yn ymwneud â dysgu Gwyddeleg yn yr ysgolion, defnyddio'r Wyddeleg yn y ddau Senedd-dy a chydabod gallu yn y Wyddeleg mewn cystadlaethau am ddyrchafiad yn y gwasanaeth sifil.

Diwedd glo

Ni heol dom ag an bpointe seo cén cinneadh a dhéanfaidh sibhse anseo sa Bhreatain Bheag i dtaca le hoifig Coimisinéara Teanga, Ombudsman Teanga nó Dyfarnydd a bhunú. Ach is féidir liom an méid seo a rá go soiléir libh – má bhíonn comhionann oifig s'againne a bhunú anseo go mbeadh an-áthas orainn ar láimhe a shíneadh trasna Mhuir Éireann le fáiltiú roimh a leithéide agus le gach comhoibriú agus comhpháirtíocht a chinntiú leis an Oifig sin.

Wn i ddim ar hyn o bryd pa benderfyniad a wnewch chi yma yng Nghymru ynglyn â sefydlu Comisiynydd Iaith, Ombwdsman Iaith neu Ddyfarnydd ond gallaf eich sicrhau, pe sefydlir swydd o fath tebyg i'r hyn sydd gennym ni yma, fe fyddem yn falch o ymestyn llw ar draws Fôr Iwerddon i'w groesawu ac i gynnig pob cydweithrediad a chymorth i'r Swyddfa honno.

Go raibh míle maith agaibh ar fad. Thank you most sincerely indeed. Diolch o galon i chi i gyd.

(Críoch-Diwedd)